

Annwyl gyfaill,

### **Ymchwiliad i systemau a ffiniau etholiadol: gwahoddiad i ymateb i'r ymgynghoriad**

Sefydlwyd y **Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad** ym mis Medi 2019 i ymchwilio i argymhellion y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad ynglŷn â maint y Cynulliad a sut mae Aelodau'n cael eu hethol. Rydym yn gofyn am dystiolaeth ysgrifenedig i lywio ein hymchwiliad i systemau a ffiniau etholiadol. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tystiolaeth yw dydd Mercher 19 Chwefror 2020.

#### **Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad**

Argymhellodd y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad y dylid cynyddu maint y Cynulliad, gan nodi y byddai angen diwygio'r ffordd y mae Aelodau'n cael eu hethol er mwyn cyflawni hyn. Argymhellodd y Panel dair system etholiadol a allai fod yn addas i'w defnyddio yng Nghymru. Y dewis a ffafrir ganddo, os gweithredir y cwota rhywedd integredig ar gyfer ymgeiswyr, yw'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy (STV). Nodwyd system Cynrychiolaeth Gyfrannol Rhestr Hyblyg yn ddewis amgen addas, a nodwyd y gallai system Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg (MMP) fod yn opsiwn status quo ymarferol.

Gallai diwygio'r system etholiadol arwain at oblygiadau sylweddol i'r ardaloedd y mae Aelodau'r Cynulliad yn eu cynrychioli. Wrth ymchwilio i ffiniau'r Cynulliad, man cychwyn y Panel Arbenigol oedd ffiniau etholiadol a gweinyddol presennol Cymru. Nodwyd tri model posibl ar gyfer ffiniau: y model cyfredol, y gellir ei ddefnyddio ar gyfer system Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg o bosibl; a dau fodel etholaeth aml-aelod y gellir eu defnyddio ar gyfer system STV neu system Cynrychiolaeth Gyfrannol Rhestr Hyblyg.

At hynny, tynnodd y Panel Arbenigol sylw at sefyllfa eithriadol Cymru gan nad oes ganddi fecanwaith ar gyfer adolygu ffiniau'r Cynulliad. Argymhellodd y Panel, ni waeth a weithredir



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

✉ [SeneddDiwygio@cynulliad.cymru](mailto:SeneddDiwygio@cynulliad.cymru)  
☎ 0300 200 6565

**National Assembly for Wales**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

✉ [SeneddReform@assembly.wales](mailto:SeneddReform@assembly.wales)  
☎ 0300 200 6565

ei gynigion ai peidio, y dylid cymryd camau deddfwriaethol i roi trefniadau adolygu ffiniau ar waith.

### **Gwahoddiad i gyfrannu i'r ymchwiliad**

Gan adeiladu ar waith y Panel Arbenigol, mae'r Pwyllgor yn ymchwilio i oblygiadau posibl newid y system ar gyfer ethol Aelodau a diwygio'r etholaethau a'r rhanbarthau y mae'r Aelodau'n eu cynrychioli. Ein nod yw cydgrynhoi ac ychwanegu at y sylfaen dystiolaeth bresennol, hysbysu'r cyhoedd ac ymgysylltu ag ef, ac amlinellu trywydd ar gyfer diwygio, a hynny er mwyn llywio ystyriaeth y pleidiau gwleidyddol o'u safbwyntiau polisi a'u manifestos ar gyfer etholiad y Cynulliad yn 2021.

I lywio ein hymchwiliad, byddai'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth ysgrifenedig gan bobl a sefydliadau sydd â diddordeb yn y materion hyn.

### **Cylch gorchwyl**

Cylch gorchwyl yr ymchwiliad yw archwilio argymhellion y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad parthed systemau a ffiniau etholiadol, a'r egwyddorion sy'n sail iddynt, a hynny drwy:

- Archwilio goblygiadau'r systemau etholiadol a'r ffiniau a argymhellwyd gan y Panel Arbenigol ar gyfer cynrychiolaeth ddemocrataidd yng Nghymru, ac ystyried sut y gellid pwysoli'r egwyddorion a nodwyd gan y Panel Arbenigol i sicrhau bod trefniadau etholiadol y Cynulliad yn briodol i gyd-destun Cymru;
- Archwilio barn a dealltwriaeth y cyhoedd ynghylch trefniadau a ffiniau etholiadol presennol y Cynulliad a'r opsiynau a argymhellir gan y Panel Arbenigol;
- Ystyried y goblygiadau i bleidiau gwleidyddol yng Nghymru yn sgil newid y system etholiadol a model y ffiniau;
- Archwilio egwyddorion ac ymarferoldeb sefydlu trefniadau adolygu ffiniau ar gyfer ardaloedd etholiadol y Cynulliad;
- Ystyried goblygiadau diwygio system etholiadol a ffiniau'r Cynulliad o ran cost ac adnoddau.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddefnyddio'r cylch gorchwyl uchod wrth lunio eich ymateb.

Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn **dydd Mercher 19 Chwefror 2020**. Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni at:

[SeneddDiwygio@cynulliad.cymru](mailto:SeneddDiwygio@cynulliad.cymru).

### **Darparu tystiolaeth ysgrifenedig**

Ni ddylai'r dystiolaeth fod yn hwy na phum ochr tudalen A4. Dylid rhifo'r paragraffau, a dylai'r dystiolaeth ganolbwyntio ar y cylch gorchwyl.



Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dylech roi disgrifiad byr o rôl eich sefydliad.

Gweler y [canllawiau i'r rhai sy'n darparu tystiolaeth ar gyfer pwyllgorau](#).

#### **Polisi dwyieithrwydd**

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddwy iaith swyddogol, sef Cymraeg a Saesneg.

Yn unol â Chynllun Ieithoedd Swyddogol y Cynulliad, mae'r Pwyllgor yn gofyn i ddogfennau neu ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau y bwriedir eu cyhoeddi neu eu defnyddio yn nhrefodion y Cynulliad Cenedlaethol gael eu cyflwyno yn ddwyieithog. Pan na chaiff dogfennau neu ymatebion ysgrifenedig eu cyflwyno yn ddwyieithog, byddwn yn cyhoeddi yn yr iaith a gyflwynwyd, gan ddweud eu bod wedi dod i law yn yr iaith honno'n unig.

Rydym yn disgwyl i sefydliadau eraill weithredu eu safonau neu eu cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaeth statudol.

#### **Datgelu gwybodaeth**

Mae rhagor o fanylion am sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth yn [www.cynulliadcymru.org/cy/help/privacy/help-inquiry-privacy.htm](http://www.cynulliadcymru.org/cy/help/privacy/help-inquiry-privacy.htm). Dylech sicrhau eich bod wedi ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor.

#### **Manylion cyswllt**

Os hoffech siarad â rhywun am yr ymgynghoriad hwn, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Stryd Pierhead  
Caerdydd  
CF99 1NA

E-bost: [SeneddDiwygio@cynulliad.cymru](mailto:SeneddDiwygio@cynulliad.cymru)

Ffôn: 0300 200 6565

Yn gywir,



**Dawn Bowden AC**

**Cadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

